

# Ail Adroddiad Blynyddol Gorfodi Sifil ar Barcio Cyngor Sir Penfro

**Ebrill 2012 - Mawrth 2013**

**Cyfarwyddiaeth Trafnidiaeth, Tai a'r Amgylchedd**

**Gorfodi Sifil ar Barcio - Adroddiad Blynyddol 2012/13**

Rhifyn: 2; 1 Awst 2013

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Strategaeth a Pholisi
3. Darparu Lleoedd Parcio yn Sir Benfro
4. Ein Gwasanaethau
5. Y Gwasanaeth Gorfodi Sifil ar Barcio
6. Perfformiad ac Ystadegau
7. Gwybodaeth Ariannol
8. Y Diweddaraf am Fentrau 2012/13
9. Datblygiadau a Mentrau'r Dyfodol

## 1.0 Cyflwyniad

Gan y Cynghorydd Rob Lewis,
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Priffyrdd a Chynllunio

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn. Hwn yw'r ail adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gennym, yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004. Croesawn y cyfle i roi gwybod ichi sut mae Cyngor Sir Penfro'n cyflawni ei waith gorfodi ar barcio a'r gwasanaethau cysylltiedig, a gosod y gwasanaeth yn ei gyd-destun gyda'n dyletswyddau a'n polisïau eraill o ran rheoli'r rhwydwaith ffyrdd.

Rydym yn parhau i orfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd ar bob ffordd yn y Sir ac ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013. Ei fwriad yw egluro i aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sut mae parcio'n cael ei reoli yn Sir Benfro a rhoi gwybod am rai o'r gwasanaethau a ddarparwn. Mae'n ceisio arddangos bod y Cyngor yn gweithredu gweithgareddau gorfodi ar barcio mewn modd teg a chyson yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys dolenni i wefan y Cyngor, sy'n cynghori sut mae osgoi parcio'n amhriodol, osgoi cael Hysbysiad Tâl Cosb a pha gyfyngiadau sy'n berthnasol ar yr amryw strydoedd yn y Sir.

Preswylwyr, busnesau, cymudwyr, pobl ag anableddau, siopwyr, ac ymwelwyr – dyma rai yn unig o'r grwpiau sydd â gwahanol anghenion o ran parcio a theithio. Yn Sir Benfro, mae gennym Sir hardd a hanesyddol, ond adeiladwyd llawer o'n strydoedd a'n hadeiladau ymhell cyn i'r lefel o berchenogion cerbydau gyrraedd lefelau heddiw. Mae rheoli parcio a thraffig yn helpu'r cyngor i sicrhau bod modd rhannu'r ardaloedd parcio sydd ar gael mewn modd teg a thryloyw.

Mae elfen fechan o fodurwyr sy'n anwybyddu cyfyngiadau ac sy'n parcio'n anghyfreithlon am fod hynny'n gyfleus iddynt hwy ac am nad ydynt yn ystyried yr anghyfleustra i eraill. Mae hyn yn annerbyniol am fod parcio anghyfrifol yn gallu arwain yn gyflym at aflonyddwch neu dagfeydd traffig.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi. Rydym yn benderfynol o barhau yn ein dyletswydd i orfodi cyfyngiadau parcio mewn modd teg a thryloyw.

## 2.0 STRATEGAETH A PHOLISI

### 2.1 Cefndir

Mae'r Weledigaeth Strategol yng Nghynllun Gwella a Chorfforaethol y Cyngor yn rhoi pwyslais ar hyrwyddo amgylchedd deniadol, glân ac iach ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod rheoli traffig yn rhan bwysig o sicrhau bod y briffordd yn cael ei defnyddio mewn modd diogel, effeithiol a synhwyrol.

### 2.2 Polisi Codi Tâl

Mae taliadau am barcio ceir yn ystyried yr egwyddorion canlynol.

- Yr angen i annog masnach adwerthu;
- Yr angen i reoli traffig;
- Yr angen i reoli galw'n effeithiol;
- Natur lleoliad parcio a'i ddefnyddwyr, h.y. siopwr trefol/busnes, preswyl, siopwr tref wledig, traeth/ymwelydd;
- Cymharu â darparwyr eraill yn yr ardal;
- Yr angen i annog pobl i ddefnyddio ffurfiau mwy cynaliadwy o gludiant;
- Nid yw taliadau'n cael eu gosod yn unswydd i ennill incwm;
- Ystyried y ddarpariaeth cyllideb refeniw gyffredinol;
- Rhagdybiaeth o blaid gwelliannau'n cael eu hariannu gan dariff cynyddol.

Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso'n gyson, sy'n arwain at wahanol daliadau o'r naill le i'r llall.

### 2.3 Rheoli Galw:

Mae taliadau parcio ceir wedi'u hystyried fesul tref. Gosodir taliadau parcio ceir yn Sir Benfro i annog siopwyr, ac mae'n debygol y bydd angen lleoedd arhosiad byr arnynt. Lle mae parcio ceir yn destun galw mawr a/neu brinder lle, mae tariffau a chyfnodau parcio'n cael eu gosod yn ofalus i sicrhau'r trosiant mwyaf posibl.

## 3.0 Darparu Lleoedd Parcio yn Sir Benfro

### 3.1 Oddi ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn rheoli meysydd parcio i ddarparu ar gyfer defnyddwyr arhosiad byr ac arhosiad hir. Mae taliadau'n berthnasol yn unol â Pholisi'r Cyngor. Bydd y taliadau cyfredol yn cael eu hadolygu yn 2013.

Mae darpariaeth yn cael ei gwneud i'r anabl yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Adran Drafnidiaeth.

### 3.2 Ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfleusterau parcio ar y stryd ar y briffordd gyhoeddus a fabwysiadwyd lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny heb ymyrryd yn ormodol ar draffig sy'n symud. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer aros cyfyngedig, yr anabl, llwytho, tacsis, beiciau modur a phreswylwyr.

Mae wedi datblygu arferion cadarn a theg i reoli ymyl y ffordd i ddarparu ar gyfer gwahanol ofynion y defnyddwyr amrywiol. Ni weithredwyd unrhyw gyfyngiadau sydd heb orchymyn rheoleiddio traffig i'w cefnogi.

## 4.0 Ein Gwasanaethau

### 4.1 Parcio Oddi ar y Stryd

Mae gan y Cyngor Feysydd Parcio lle codir tâl a rhai lle na chodir tâl; mae manylion ar wefan y Cyngor www.pembrokeshire.gov.uk. Mae gan Gyngor Sir Penfro 97 o feysydd parcio, a 32 ohonynt yn rhai talu ac arddangos. Mae gan 18 ohonynt daliadau sy'n berthnasol drwy gydol y flwyddyn ac mae gan 13 ohonynt daliadau tymhorol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Gwerthwyd 129 o docynnau tymor yn 2012, a chyhoeddwyd 148 o drwyddedau cadw a 206 o drwyddedau Harbwr Dinbych-y-pysgod. Mae o leiaf 6% o leoedd wedi'u neilltuo i ddeiliaid bathodyn las. Hepgorodd y Cyngor daliadau ar ddiwrnodau penodol ym mis Rhagfyr wrth nesáu at y Nadolig ym mhob maes parcio ledled y Sir lle codir tâl.

### 4.2 Ar y Stryd

Ar hyn o bryd, mae 1025 o leoedd aros cyfyngedig, 130 o leoedd i'r anabl, 28 o leoedd Tacsi, 3 o gilfachau bws, 25 o gilfachau Llwytho / Dadlwytho Nwyddau, 1 gilfach ambiwlans ac 1 gilfach beic modur. Yn y lleoedd cyffredinol, mae 675 o leoedd o hyd ar gyfer Deiliaid Trwydded Busnes / Preswylydd.

### 4.3 Parcio i Breswylwyr

Cyflwynwyd Cynlluniau Parcio i Breswylwyr, lle mae'n ymarferol, ar nifer o strydoedd/lleoliadau ledled y Sir. Ar hyn o bryd, mae 52 o gynlluniau ar waith, ac mae rhestr lawn yn Atodiad 1. Mae'r holl gynlluniau ar y briffordd gyhoeddus yn cael eu gweithredu dan yr un rheoliadau, sef un drwydded i bob eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Mae trwyddedau'n ddilys am gyfnod hyd at 12 mis. Mae trwydded yn costio £35.00. Mae trwyddedau ymwelwyr ar gael am gyfnodau hyd at 7 diwrnod am gost o £7.00, a hynny eto ar sail un i bob eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Rhaid darparu prawf anheddu, yswiriant dilys a thystysgrif MOT.

Gweithredir cynllun heblaw priffordd yn Harbwr Dinbych-y-pysgod lle mae un drwydded yn cael ei rhoi i bob eiddo ond nid yw'n benodol i gerbyd. Mae trwydded yn costio £100 ac nid yw'r gost wedi codi ers 2003.

Cyhoeddwyd 739 o drwyddedau blynyddol rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013 a 371 o drwyddedau ymwelwyr. Yn ddiweddar, cynhaliom adolygiad o barcio i breswylwyr.

Ym mis Tachwedd 2012, dosbarthom ryw 1,500 o holiaduron i gartrefi mewn strydoedd yn Sir Benfro sydd â Chynlluniau Parcio i Breswylwyr ar hyn o bryd. Postiwyd holiaduron hefyd i ryw 50 o ddeiliaid trwydded nad ydynt yn breswylwyr. Gofynnom i breswylwyr a oedd â thrwyddedau parcio preswylwyr, yn ogystal â'r rheini heb drwydded, i lenwi'r holiadur. Cawsom 441 o ymatebion, sef 371 gan bobl a oedd â thrwyddedau ar y pryd a 99 heb drwydded. Ystyriwyd adroddiad am y canfyddiadau gan Bwyllgor Craffu a Throsolwg yr Amgylchedd ar 6 Mehefin 2013. Mae modd gweld copi o'r adroddiad yn www.pembrokeshire.gov.uk/haveyoursay, ymgynghoriad ar gau.

4.4 Goddefebau Parcio

Mewn amgylchiadau penodol, drwy gyhoeddi goddefeb, mae'r Cyngor yn caniatáu i gerbyd barcio'n gyfreithlon mewn modd sy'n groes i orchymyn Rheoleiddio Traffig. Caiff hefyd atal lleoedd parcio at ddibenion cadw'r lleoedd hynny ar gyfer cerbydau a/neu ymgeiswyr penodol.

Bydd goddefebau'n cael eu cyhoeddi drwy fodd trwydded dros dro sy'n cynnwys manylion y digwyddiad, rhif cofrestru'r cerbyd, dyddiad ac amser ei ddefnyddio. Rhaid arddangos y drwydded yn glir ar sgrin wynt flaen y cerbyd cymeradwy.

Cyhoeddwyd 155 o oddefebau rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.

## 5.0 Gorfodi Sifil ar Barcio

5.1 Timau Parcio a Gofal Stryd

Mae cyfuno'r gwaith o reoli a gorfodi parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd yn dwyn buddion cymunedol a gweithredol sylweddol. Ym mis Ebrill 2013, cyfunwyd y tîm gwasanaeth Parcio a'r tîm gofal stryd dan un rheolwr gweithredol. Mae gan y ddwy adran eu cylch gwaith eu hunain o hyd, ond mae manteision y gwasanaeth cyfunol hwn yn cynnwys:

- Cydlynu'r gwaith o orfodi a rheoli parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Cydlynu'r gwaith o orfodi'r holl faterion cysylltiedig â phriffyrdd
- Cydlynu'r gweithgareddau ar y rhwydwaith priffyrdd
- Rheoli a chydlynu digwyddiad sy'n effeithio ar weithgareddau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Cydlynu gwaith trydydd parti ar y briffordd
- Rheoli'r holl weithgareddau trwyddedig ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Gweithredu polisïau'n fwy effeithiol

5.2 Cynnal y Gwasanaeth Gorfodi Sifil ar Barcio

Ar hyn o bryd, mae Sir Benfro'n cyflogi 12 o Swyddogion Gorfodi Sifil, Clerc Technegol a 3 Swyddog Parcio sy'n goruchwylio eu gweithgareddau; cânt i gyd eu cefnogi gan y Rheolwr Gofal Stryd. Nid ydynt yn cael unrhyw gymhellion na bonws sy'n seiliedig ar berfformiad.

Mae hysbysiadau tâl cosb yn cael eu rhoi i gerbydau sy'n parcio'n groes i'r cyfyngiadau. Os yw modurwr am herio hysbysiad tâl cosb, rhaid iddo ddilyn y broses apelio sy'n cael ei disgrifio ar gefn yr hysbysiad.

A hwythau'n gweithredu'r gwasanaeth Gorfodi Sifil ar Barcio ers mis Chwefror 2011, mae staff y Gwasanaethau Parcio wedi dod i ddeall yn fanwl ymhle a phryd y mae parcio diwahaniaeth yn digwydd. Fodd bynnag, pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn cael problemau parcio penodol, gallant roi gwybod amdanynt i'r swyddfa.

Mae'r tîm gwasanaethau parcio hefyd yn gyfrifol am reoli'r holl feysydd parcio, peiriannau Talu ac Arddangos, materion ariannol, Trwyddedau Preswylwyr, Tocynnau Cadw a Thocynnau Tymor Meysydd Parcio, Goddefebau Parcio a Thrwyddedau Maes Parcio.

5.3 Cefn Swyddfa – Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPC Cymru)

Mae cefn swyddfa PPC Cymru'n cael ei ddefnyddio o hyd i brosesu'r Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddir. Mae cyfarfodydd chwarterol, gweithgor swyddogion, gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod Partner i drafod cysondeb gweithredol, rhannu arfer gorau a cheisio arbed effeithlonrwydd o hyd.

5.4 Beilïau

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau tri chwmni beili i adennill dyledion, sef Excel, Proserve ac A J Enforcement. Mae ganddynt oll brofiad sylweddol o'r gwaith hwn a darparant wasanaethau tebyg i gynghorau eraill PPC Cymru yn ogystal â'n partneriaid SWWITCH Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

## 6.0 Perfformiad ac Ystadegau

6.1 Perfformiad Ystadegol

Dengys y tablau isod ystadegau mewn perthynas â Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.

6.2 Hysbysiadau Tâl Cosb – Dilyniant Achosion

| | Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd | % |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd** | **11422** | **100%** |
| | | |
| Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd ar y stryd | 7204 | 63% |
| Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd oddi ar y stryd | 4218 | 37% |
| | | |
| *Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a dalwyd ar gyfradd ddisgownt* | *7238* | *64%* |
| *Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a dalwyd ar ôl 14 diwrnod* | *1304* | *11%* |
| *Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb heb eu talu* | *925* | *8%* |
| *Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a ganslwyd (gweler tabl 6.5)* | *1955* | *17%* |

## 6.3 Tramgwyddau Parcio Ar y Stryd

| Cod | Disgrifiad | Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd | % |
|---|---|---|---|
| 01 | Wedi parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig | 2095 | 18.34 |
| 02 | Wedi parcio neu'n llwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho/dadlwytho mewn grym. | 160 | 1.4 |
| 12 | Wedi parcio mewn lle parcio preswylwyr neu ddefnydd a rennir heb arddangos yn glir drwydded a gyhoeddwyd ar gyfer y lle hwnnw. | 1442 | 12.62 |
| 16 | Wedi parcio mewn lle trwydded heb arddangos trwydded ddilys | 60 | 0.52 |
| 18 | Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau, neu eu cynnig neu wneud ar gael i'w gwerthu, pan fo hynny wedi'i wahardd. | 1 | 0.01 |
| 20 | Wedi parcio mewn bwlch llwytho wedi'i farcio â llinell felen | 0 | 0 |
| 21 | Wedi parcio mewn cilfach ataliedig neu ran o gilfach | 53 | 0.46 |
| 23 | Wedi parcio mewn lle parcio heb ei ddynodi at y dosbarth hwnnw o gerbyd | 561 | 4.91 |
| 25 | Wedi parcio mewn lle llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb lwytho | 102 | 0.89 |
| 27 | Wedi parcio wrth ymyl troedffordd isel | 139 | 1.21 |
| 40 | Wedi parcio mewn lle parcio person anabl dynodedig heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir | 565 | 4.95 |
| 45 | Wedi parcio mewn safle tacsi | 95 | 0.83 |
| 47 | Wedi aros mewn safle bws cyfyngedig | 159 | 1.39 |
| 48 | Wedi aros mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol | 2 | 0.02 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 49 | Wedi parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio | 4 | 0.04 |
| 62 | Wedi parcio gydag un neu ragor o olwynion ar ran o'r ffordd heblaw rhwng dwy ffordd gerbydau | 45 | 0.39 |
| 99 | Wedi aros ar groesfan cerddwyr neu ardal wedi'i marcio ag igam-ogamiadau. | 39 | 0.34 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 05 | Wedi parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 0 | 0 |
| 06 | Wedi parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos dilys | 7 | 0.06 |
| 11 | Wedi parcio heb dalu'r tâl parcio | 1 | 0.01 |
| 19 | Wedi parcio mewn lle preswylydd neu ddefnydd a rennir yn arddangos trwydded annilys | 1 | 0.01 |
| 22 | Wedi ailbarcio yn yr un lle parcio cyn pen awr o adael | 2 | 0.018 |
| 24 | Heb barcio'n gywir o fewn marciau cilfach/lle parcio | 50 | 0.44 |
| 30 | Wedi parcio'n hirach nag a ganiatawyd | 1620 | 14.18 |
| 35 | Wedi parcio mewn lle parcio disg heb arddangos disg ddilys | 1 | 0.01 |

## 6.4 Tramgwyddau Parcio Oddi ar y Stryd

| Cod | Disgrifiad | Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd | % |
|---|---|---|---|
| 70 | Wedi parcio mewn ardal lwytho yn ystod oriau cyfyngedig | 1 | 0.01 |
| 73 | Wedi parcio heb dalu'r tâl parcio | 7 | 0.06 |
| 74 | Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau, neu eu cynnig neu wneud ar gael i'w gwerthu, pan fo hynny'n waharddedig. | 11 | 0.10 |
| 80 | Wedi parcio'n hirach na'r cyfnod mwyaf a ganiatawyd. | 70 | 0.61 |
| 81 | Wedi parcio mewn ardal gyfyngedig mewn maes parcio | 13 | 0.11 |
| 82 | Wedi parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben | 967 | 8.47 |
| 83 | Wedi parcio mewn maes parcio heb arddangos yn glir docyn neu daleb talu ac arddangos dilys | 2149 | 18.81 |
| 85 | Wedi parcio mewn cilfach drwydded heb arddangos trwydded ddilys | 341 | 2.99 |
| 86 | Wedi parcio y tu hwnt i farciau'r gilfach | 240 | 2.10 |
| 87 | Wedi parcio mewn lle parcio i bobl anabl heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir. | 363 | 3.17 |
| 91 | Wedi parcio mewn maes parcio heb ei ddynodi ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd | 18 | 0.16 |
| 92 | Wedi parcio gan achosi rhwystr | 0 | 0 |
| 95 | Wedi parcio mewn lle parcio at ddiben heblaw'r diben a ddynodwyd i'r lle parcio. | 38 | 0.33 |

## 6.5 Hysbysiadau Tâl Cosb a Ganslwyd

| | | Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd | % |
|---|---|---|---|
| Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a ganslwyd o ganlyniad i ymhoniadau | | | |
| Bathodyn Las | 317 | 993 | 9% |
| Cerbyd Tramor | 50 | | |
| Gwrthwynebiad wedi'i Dderbyn | 616 | | |
| Dyfarniad | 10 | | |
| Nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a ganslwyd am resymau eraill (e.e. methu olrhain y perchennog, gwall Swyddog Gorfodi Sifil, DVLA yn methu darparu) | | 962 | 8% |
| | | 1955 | 17% |

## 7.0 <u>Gwybodaeth Ariannol</u>

### 7.1 <u>Cyfrif Ariannol</u>

Cyflwynir isod ddata ariannol incwm a gwariant a lywodraethir gan Adran 55 o Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984.

<u>CRYNODEB ARIANNOL</u>

| | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|
| <u>Incwm</u> | | |
| Trwyddedau Parcio Preswylwyr | 28,333 | 30,895 |
| Goddefebau Parcio | 4,467 | 7,970 |
| Taliadau Cosb | 360,505 | 337,995 |
| Cyfanswm Incwm | £393,305.00 | £376,860.00 |
| <u>Gwariant</u> | | |
| Costau Cyflogeion | 219,833 | 229,205 |
| Safleoedd | 47,735 | 48,469 |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 91,610 | 121,061 |
| Cymorth a Rheoli | 77,598 | 88,010 |

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau Eraill | 0 | 0 |
| Taliadau Cyfalaf | 7,578 | 5942 |
| Cyfanswm Gwariant | £444,353 | £492,686 |
| (Gwarged) / Diffyg | £51,048.00 | £115,826.00 |

Er bod diffyg wedi'i ddangos yn y ffigurau uchod, nid yw'r wybodaeth ariannol a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys y gweithgarwch oddi ar y stryd heb ei lywodraethu gan Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffordd 1984.

## 8.0 Y Diweddaraf am Fentrau 2012 / 2013

| Menter | Cynnydd |
|---|---|
| Cydweithio ag APCAP<br>• Gorchymyn Parcio<br>• Cydweithio | • Gwaith papur wedi'i ddrafftio ar gyfer gorchymyn parcio APCAP: disgwyl prosesu cyfreithiol<br>• Cydweithio ag APCAP yn mynd rhagddo, e.e. adolygu pasbort parcio a rennir<br>• Mae gwaith pellach, parhaus yn ofynnol i ganfod agweddau cyffredin |
| Adolygiad o Barcio Preswylwyr | Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2012. Rhoir gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad i'r pwyllgor craffu yn 13/14 |
| Maes Parcio Aml-lawr Dinbych-y-pysgod | Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol.<br>Mae cynigion am gyfnewidfa drafnidiaeth a gwelliannau i'r Maes Parcio Aml-lawr yn mynd rhagddynt. |
| Cyfnewidfa Drafnidiaeth Doc Penfro | Cafwyd caniatâd cynllunio. Mae'r cynllun yn disgwyl nodi cyllid cyn symud ymlaen. |
| Gofalwyr – Monitro Trefniadau | Adolygwyd y trefniadau presennol yn 2012. Bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal yn 2013 / 2014. |
| Adolygiad o Daliadau Meysydd Parcio | Mae taliadau meysydd parcio'n cael eu hadolygu i'w hystyried gan yr adran weithredol. |
| Cyfyngiadau parcio<br>• Adolygiad o gyfyngiadau parcio | Adolygiad yn parhau yn 2013 / 2014. |

## 9.0 <u>Datblygiad a Mentrau'r Dyfodol</u>

Yn 2013/14 bydd nifer o fentrau'n cael eu hystyried, naill ai'n dilyn gweithgarwch a materion a gododd y llynedd neu fentrau newydd, fel a ganlyn:

- Parhau'r cydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Awdurdod Penfro.

- Cwblhau adolygiad o Barcio Preswylwyr (adroddiad Pwyllgor Craffu a Throsolwg yr Amgylchedd)

- Dechrau gwaith ym Maes Parcio Aml-lawr Dinbych-y-pysgod.

- Adolygu trefniadau ar y stryd i ofalwyr a darparu argymhellion am hyn

- Adolygu a gweithredu'r argymhellion o'r archwiliad mewnol dyddiedig Rhagfyr 2012

- Adolygu taliadau meysydd parcio a rhoi argymhellion i'r adran weithredol eu hystyried

- Adolygiad o drefniadau goddefebau parcio

## Atodiad 1: Cynllunio Lleoedd Parcio Preswylwyr a Defnydd a Rennir

| |
|---|
| **Broad Haven**<br><br>Marine Road - yr ochr orllewinol |
| **Dale**<br><br>U6006 Dale Fort Road - yr ochr ddwyreiniol |
| **Abergwaun**<br><br>Wallis Street – yr ochr ddwyreiniol |
| **Hwlffordd**<br><br>Bush Row – yr ochr ddwyreiniol<br>Albany Terrace – ardal barcio |
| Cambrian Place - yr ochr ddwyreiniol |
| Cartlett - yr ochr ogleddol |
| Ardal y Castell<br>North Street - yr ochr orllewinol<br>North Street - yr ochr ddwyreiniol<br>Holloway - yr ochr ogleddol<br>Sgwâr y Frenhines – yr ardal ganolog |
| Crowhill - yr ochr ddwyreiniol |
| Merlins Hill – yr ochr ogleddol |
| North Crescent - yr ochr orllewinol |
| 8Winch Crescent - yr ochr ddeheuol |
| **Aberdaugleddau**<br><br>Robert Street - yr ochr ogleddol a deheuol |
| **Neyland**<br><br>Neyland Hill - yr ochr ddeheuol |
| **Penfro**<br><br>Woodbine Terrace - yr ochr ddeheuol |
| **Doc Penfro**<br><br>Apley Terrace - yr ochr ddeheuol |
| Bush Street - yr ochr ogleddol a deheuol |
| Church Street – yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Gordon Street - yr ochr orllewinol |
| Gwyther Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Laws Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Lewis Street – yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Pembroke Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Upper Laws Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Upper Meyrick Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |

| |
|---|
| **Dinbych-y-pysgod**<br>Augustus Place (yn gwasanaethu Rhifau 1-10) a (yn gwasanaethu Rhifau 11-18) |
| Clareston Road - yr ochr orllewinol a deheuol |
| Culver Park – yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Greenhill Avenue – yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Weston Terrace - yr ochr orllewinol<br>Harding Street – yr ochr ogleddol a deheuol |
| Harries Street - yr ochr orllewinol |
| Heywood Court - yr ochr orllewinol<br>Heywood Court - Rhifau 74-85 yr ochr ogleddol, Rhifau 48-64 yr ochr ddeheuol |
| Lower Frog Street - yr ochr ddwyreiniol |
| Park Place - yr ochr ogleddol a deheuol<br>Edward Street – yr ochr de-ddwyrain<br>Park Terrace - yr ochr de-ddwyrain |
| Penally Road - yr ochr ddwyreiniol |
| Picton Road - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Picton Terrace - yr ochr orllewinol |
| Queens Parade - yr ochr orllewinol |
| South Cliff Street – yr ochr ogleddol |
| St Florence Parade - yr ochr ddwyreiniol |
| St Johns Hill – yr ochr ogleddol |
| St Julian’s Street – yr ochr ogledd-orllewin |
| Sutton Street - yr ochr ddwyreiniol |
| The Croft - yr ochr ddwyreiniol |
| The Norton - yr ochr ddwyreiniol |
| The Paragon – yr ochr ddeheuol |
| Trafalgar Road – yr ochr ogledd-orllewin a de-ddwyrain |
| Victoria Street - yr ochr orllewinol a dwyreiniol |
| Warren Street - yr ochr ddeheuol |

**Cilfach Defnydd a Rennir (Aros Cyfyngedig am 1 awr, dim dychwelyd cyn pen 1 awr, Llun - Sad 8am-6pm / Deiliaid trwydded)**

| |
|---|
| **Doc Penfro**<br>Meyrick Street - yr ochr orllewinol |

**Cilfach Defnydd a Rennir (Aros Cyfyngedig am 1 awr, dim dychwelyd cyn pen 1 awr, 8am-6pm / Deiliaid trwydded)**

| |
|---|
| **Hwlffordd**<br>Holloway – yr ochr ogleddol |
| North Street - yr ochr ddwyreiniol |
| Sgwâr y Frenhines – yr ardal ganolog |
| **Tyddewi**<br>New Street – yr ochr ddwyreiniol |